Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cais am Gymeradwyo Darpariaeth Dysgu Proffesiynol

Nod ein dull gweithredu o ran sicrhau ansawdd dysgu proffesiynol yw gofalu bod pob ymarferydd addysg yn cael mynediad teg at ddarpariaeth o ansawdd uchel i gefnogi eu datblygiad parhaus. Mae ein proses gymeradwyo drylwyr a chadarn yn rhoi sicrwydd bod darpariaeth dysgu proffesiynol wedi bodloni'r safonau ansawdd gofynnol. Mae'r broses yn cael ei harwain gan y Panel Cymeradwyo Cenedlaethol.

Gall darparwyr sy'n cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr addysg gyflwyno cais am gymeradwyaeth, yn seiliedig ar alwadau am gymeradwyaeth.

Er mwyn ennill statws cymeradwy, bydd angen i ddarparwyr lenwi ffurflen gais, a fydd, os yn llwyddiannus, yn arwain at wahoddiad i gyfweliad, er mwyn iddynt ddangos sut mae'r ddarpariaeth yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo.

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei defnyddio i adnabod y person hwnnw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddull adnabod.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i'r darparwr ddarparu manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn). Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gysylltu â chi mewn perthynas â'ch cais a bydd hefyd yn cael ei rhannu trwy weinydd diogel gydag aelodau o'r Panel Cymeradwyo, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall rydych chi'n ei rhoi i ni i gefnogi eich cais fel rhan o'r broses o asesu eich cais.

### Beth yw'r sail cyfreithiol dros ddefnyddio'ch data?

Y sail cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob amser yn cael ei chadw ar weinyddion diogel, a bydd mynediad at y ceisiadau yn cael ei gyfyngu i'r tîm polisi uniongyrchol ac aelodau'r Panel Cymeradwyo Cenedlaethol. Bydd y data

personol a roddwch yn cael eu storio mewn ffolder gyfyngedig. At ddibenion eich cais yn unig y caiff yr wybodaeth ei defnyddio.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd eich cais yn cael ei rannu ag aelodau'r Panel Cymeradwyo Cenedlaethol trwy Objective Connect. Mae hwn yn fan gweithio diogel a phreifat.

### Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Os bydd eich cais am gymeradwyaeth yn llwyddiannus, bydd eich manylion yn cael eu cadw am 5 mlynedd. Fel arall, bydd eich data yn cael eu dileu o fewn 3 blynedd.

### Hawliau'r unigolyn

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, sef:

- Cael mynediad at eich data eich hun.
- Mynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny.
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu (o dan amgylchiadau penodol).
- Gofyn i'ch data gael eu ‘dileu’ (o dan amgylchiadau penodol);
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a ddarperir gennych fel rhan o'ch cais, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau drwy ddefnyddio GDPR y DU, cysylltwch â'r tîm isod:

Cyfeiriad e-bost: ArdystioDysguProffesiynol@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru